# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MERCHER, 30AIN EBRILL, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni***

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 23 Ebrill 2025)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Alan Jones Evans

Arwyn Herald Roberts

Elfed Williams (Cadeirydd)

Hefin Underwood (Eilydd)

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO — 5 - 7

MICKEY'S BEACH CAFE, THE BOATYARD AND SHIPWAY, BWLCHTOCYN, ABERSOCH

I ystyried y cais

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.
9. Swyddog Cyfreithiol y Cyngor i grynhoi gofynion y cais

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS - BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **30 o Ebrill 2025** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO – MICKEY'S BEACH CAFE, THE BOATYARD AND SHIPWAY, BWLCHTOCYN, ABERSOCH** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Mickey's Beach Cafe, The Boatyard and Shipway, Bwlchtocyn, Abersoch, LL53 7EU. Y bwriad yw gallu gwerthu alcohol yn ddyddiol yn ystod y tymhorau prysura o'r flwyddyn.

1.2 Mae'r ymgeisydd yn ceisio am drwydded eiddo i: Werthu alcohol (ar ac oddi ar yr eiddo) o 10:00 – 17:30, o ddydd Llun i Sul.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

1.4 Fe dderbyniwyd sylwadau ar y cais ac felly mae wedi ei gyfeirio i wrandawiad o'r Is Bwyllgor hwn am benderfyniad.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

| **Trwydded Arfaethedig/Proposed Licence** |
|---|
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar yr Eiddo :: On the Premises**<br>Dydd Sul/Sunday: 10:00 - 17:30<br>Dydd Llun/Monday: 10:00 – 17:30<br>Dydd Mawrth/Tuesday: 10:00 – 17:30<br>Dydd Mercher/Wednesday: 10:00 – 17:30<br>Dydd Iau/Thursday: 10:00 – 17:30<br>Dydd Gwener/Friday: 10:00 – 17:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday: 10:00 – 17:30 |

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn atodlen weithredol y cais yn cynnwys y canlynol –

- Bydd y safle yn gweithredu polisi dim gwydrau, a bydd yr holl alcohol sy'n cael ei werthu i'w yfed oddi ar y safle yn defnyddio polycarbonadau
- Bydd unrhyw staff sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwerthu alcohol i ddefnyddwyr, yn cael hyfforddiant dogfennol rheolaidd sy'n ymwneud â gwerthu alcohol ac atal gwerthiannau dan oed
- Polisi her 25 mewn lle

- Dim cerddoriaeth uchel – gofyn i gwsmeriaid adael yn ddistaw
- CCTV yn weithredol ar y safle

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn rhan M y cais a welir yn yr atodiad .

## 3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Tan | Dim gwrthwynebiad |
| Tîm Bwyd, Gwarchod y Cyhoedd | Dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Llygredd Gwarchod y Cyhoedd | Dim gwrthwynebiad |
| Gwasanaeth Cynllunio | Dim gwrthwynebiad |
| Aelodau o'r cyhoedd | Gwrthwynebiadau |
| Cyngor Cymuned Llanengan | Gwrthwynebiad |

**Sylwadau Cyngor Cymuned Llanengan**

3.1 Pryderir am yfed ar y traeth – nid yw peiriannau (e.e. cychod cyflym/jetskis ac alcohol yn cyd-fynd.

3.2 Pryderir yn arw am y diffyg toiledau ar y safle – mater a gododd y Cyngor sawl gwaith ers pan sefydlwyd caffi ar y safle.

3.3 Gall gwerthu alcohol gynyddu poblogrwydd Traeth Marchros a phryderir am y teithio ychwanegol a ellid ei wneud yno ar ffordd cul, troellog sydd a dim ond bron digon o le i ddau gar basio'i gilydd.

## 4 Sylwadau'r Cyhoedd

4.1 Does dim toiledau ar y safle, ac mae'r cwsmeriaid yn defnyddio toiledau cyhoeddus wrth ymyl. Does gan y caffi ddim rheolaeth dros y toiledau ac mi all rhain fod ar gau ar unrhyw adeg sydd hefo y potensial i achosi trafferthion gwastraff dynol yn yr ardal.

4.2 Mae'r ardal wedi gweld cynyddiad mewn gwastraff yn cael ei wasgaru wrth y caffi fel mae o, ac mae potensial i hyn fod yn fwy o broblem os bydd fwy o bobl yn yfed yno. Mae rhai preswylwyr wedi bod yn gweld cynyddiad mewn llygod mawr ers i'r caffi brysuro.

4.3 Pryderu y gall fod cynyddiad mewn gwydr wedi malu a plastig ar y traeth ger y caffi.

4.4 Mae'r traeth o flaen y caffi yn boblogaidd iawn hefo teuluoedd, a gall gwerthu alcohol gynyddu'r potensial i bobl yfed a gweithredu cychod pŵer yn yr ardal sydd yn beryglus i unrhyw un sydd yn nofio yn y mor.

**Yn unol a'r Deddf Drwyddedu 2003, argymhellir fod y Pwyllgor yn ystyried sylwadau yr ymatebwyr, ac ymateb yr ymgeisydd i'r pryderon – ac yn caniatáu'r cais.**

- **Gwerthwyd alcohol ac y safle ar nifer o achlysuron yr haf diwethaf drwy defnyddio Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro. Ni dderbyniwyd cwynion gan yr Awdurdod Trwyddedu nac Uned Gwarchod y Cyhoedd yn dilyn sawl digwyddiad a ganiateir yn defnyddio Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro.**